**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 14 Chwefror 2001

**Amser:** 2.00 hyd 5.00 pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**ADOLYGU'R POLISI TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS: MATERION SY'N DOD I'R AMLWG**

**Diben**

1. Ceisio cytundeb y pwyllgor ar flaenoriaethau ar gyfer gweddill yr adolygiad o bolisi trafnidiaeth gyhoeddus.

**Cefndir**

2. Dyma oedd cylch gorchwyl yr adolygiad:

- Ystyried polisïau trafnidiaeth gyhoeddus y Cynulliad (gan gynnwys gwasanaethau bysiau, rheilffordd a thrafnidiaeth gymunedol) a nodi unrhyw newidiadau yn y tymor byr o fewn y fframwaith statudol, rheoliadol a threfniadol cyfredol a fyddai'n hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau integredig gwell ac yn annog mwy o bobl i'w defnyddio;

- Ystyried a fyddai unrhyw newidiadau yn y tymor hirach i'r fframwaith statudol, rheoliadol a threfniadol fel y mae'n berthnasol i drafnidiaeth gyhoeddus yn ei gwneud yn haws i ddarparu gwasanaethau gwell.

3. Mae'r pwyllgor wedi clywed barn amrywiaeth eang o sefydliadau, trwy'r ymatebion i'r broses ymgynghori ac mewn cyfarfodydd pwyllgor, a chlywir safbwyntiau eraill yn y cyflwyniadau heddiw. Codwyd materion yn ymwneud â holl sbectrwm trafnidiaeth gyhoeddus, o'r car preifat, trwy drafnidiaeth gymunedol, i'r rheilffyrdd sy'n cludo torfeydd o bobl.

**Gweledigaethau ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus integredig yng Nghymru**

4. Mae gweledigaeth yn dechrau ymddangos, a bydd aelodau'r pwyllgor hefyd yn edrych ar arferion gorau mewn mannau eraill ac yn asesu pa mor berthnasol yw'r cynlluniau hyn i Gymru, ac a ellid eu fforddio. Dyma, yn ôl pob golwg, elfennau'r weledigaeth ar gyfer

trafnidiaeth gyhoeddus integredig yng Nghymru:

- Rhwydwaith rheilffordd cydlynol – sefydlu un ffranseis rheilffordd, annog pobl i drosglwyddo rhwng gwahanol ddulliau teithio, a chodi proffil y rheilffyrdd;

- Lefelau cymhorthdal cyhoeddus – datblygu'r rhwydwaith a gwneud mwy o ddefnydd ohono, gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy deniadol, darparu cerbydau a stoc sy'n cyrraedd safonau'r 21ain ganrif, targedu marchnadoedd, gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy effeithlon ac annog mwy o bobl i'w defnyddio, gwella'r gwasanaethau cymorth i deithwyr yn sylweddol;

- Trafnidiaeth gymunedol – datblygu pob ffurf ar drafnidiaeth rhwng y car preifat a bysiau;

- Rhoi ar waith – datblygu mwy o gymhelliant i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, ei gwneud yn haws a mwy effeithlon i drosglwyddo o un dull trafnidiaeth i un arall ac annog mwy o bobl i wneud hynny, a chyfyngu ar y defnydd o geir;

- Trafnidiaeth gyhoeddus yr ail genhedlaeth – paratoi ar gyfer yr adeg pan na fydd trafnidiaeth gyhoeddus gonfensiynol ar ffyrdd confensiynol yn effeithlon mwyach, a phan ddaw ei gallu i ymdopi i ben.

**Gwireddu'r weledigaeth**

5. Mae'n bosibl y bydd y pwyllgor yn dymuno ystyried y trefniadau sydd eu hangen er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon. Er mwyn osgoi dyblygu gwaith rhaglenni a phrosiectau ymchwil y mae Gweinidog yr Amgylchedd ac eraill yn eu datblygu, fe allai'r aelodau ddymuno canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

*Y tymor byr*

- Hygyrchedd – ystyried opsiynau ar gyfer gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch mewn ardaloedd trefol a gwledig, yn gysylltiedig â'r adolygiad o drafnidiaeth gymunedol y mae'r Gweinidog ar fin ei gynnal;

- Gorfodi – ystyried a yw'r pwerau gorfodi presennol yn ddigon cryf i gefnogi trafnidiaeth gyhoeddus a sicrhau bod teithwyr yn ddiogel;

- Gwasanaethau Bws – ystyried opsiynau ar gyfer eu gwella (e.e. cymharu'r ffordd y mae contractau ansawdd a phartneriaethau ansawdd yn gwella gwasanaethau bws);

- Ariannu arloesedd – ystyried opsiynau ar gyfer ariannu prosiectau arbrofol ac annog datblygiad gwelliannau arloesol ochr yn ochr â'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

(e.e. prosiect arddangos sy'n cyfuno sawl dull teithio);

- Seiclo a cherdded – ystyried pa mor ymarferol fyddai cymryd camau ariannol neu lunio polisïau tymor byr wedi'u hanelu at integreiddio gyda seiclo a cherdded, gan ystyried gwaith a wneir gan Fforwm Trafnidiaeth y Gweinidog (bwriedir trafod y cynnig cychwynnol ar 26 Mawrth).

*Y tymor hirach*

- Trafnidiaeth gyhoeddus yr ail genhedlaeth – ystyried i ba raddau y mae systemau newydd (fel systemau bws newydd, LRT (Light Rapid Transit) neu fysiau tywysedig) yn berthnasol i raddfa ac amgylchiadau Cymru;

- Mwy o bwerau – ystyried a oes angen newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol i ddatganoli cyfrifoldeb am holl bolisi trafnidiaeth yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn i drafnidiaeth gyhoeddus elwa;

- Strwythurau trefniadol – ystyried a allai consortia partneriaeth wireddu'r weledigaeth, ac asesu pa mor ymarferol yw gwahanol fodelau ar gyfer rheoli trafnidiaeth gyhoeddus ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys Awdurdodau Trafnidiaeth Teithwyr a strwythurau trafnidiaeth rhanbarthol Ewropeaidd eraill.

**Amserlen**

6. Mae'r pwyllgor wedi gosod targed o ddiwedd tymor yr haf 2001 ar gyfer cwblhau adroddiad drafft, a diwedd tymor yr hydref ar gyfer cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r cyfarfod llawn. Trefnwyd trafodaethau ar gyfer pum cyfarfod arall o'r pwyllgor cyn diwedd tymor yr haf.

**Y camau nesaf**

7. Unwaith y bydd y pwyllgor wedi cytuno ar flaenoriaethau'r adolygiad, gwneir gwaith pellach i sefydlu sylfaen gadarn o dystiolaeth y gall yr aelodau ei defnyddio er mwyn asesu manteision ac anfanteision y gwahanol opsiynau cyn gwneud argymhellion ar y ffordd ymlaen. Ar gyfer pob blaenoriaeth, bydd hyn yn cynnwys:

- casglu data sylfaenol (a nodi unrhyw fylchau);
- nodi'r arferion gorau tu allan i Gymru a dadansoddi tystiolaeth sy'n arddangos llwyddiant;
- dadansoddi pa mor effeithiol yw'r gwaith o fonitro a gwerthuso polisïau a rhaglenni trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru (a nodi unrhyw fylchau);
- asesu'r meini prawf a sefydlwyd er mwyn gwerthuso trafnidiaeth yng Nghymru, cynnig gwelliannau (os oes angen) a thynnu sylw at unrhyw feysydd ble y mae angen ymchwil bellach.

**Casgliad**

8. Gwahoddir aelodau i gytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer yr adolygiad, fel yr awgrymir ym mharagraff 5 uchod.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

Chwefror 2001